

ADRODDIAD YSGOL EIFIONYDD RHAGFYR 2015



Diwrnod Plant Mewn Angen

Yn unol â'r arfer bu prysurdeb mawr yn yr ysgol ar gyfer diwrnod Plant Mewn Angen. Bu criw o ddisgyblion Bl.10 yn brysyr yn pobi cacennau o bob math o dan arweiniad Mrs.Gwyneth Owen. Cafodd disgyblion a'r staff gyfle i brynu'r cacennau a chafodd y plant gyfle i fwynhau diwrnod yn gwisgo dillad o'u dewis hwy, gan gynnwys gwisg ffansi. Llwyddwyd i godi at yr elusen hynod boblogaidd yma.



Teams4U - Ar 23 o Dachwedd casglwyd 33 o focus Teams4U o'r ysgol. Bydd y bocsus yn mynd at blant tlotaf Romania a Belarus. Diolch i'r disgyblion a'r staff a fu ynghlwm â'r achos da yma.



Cat's Paw - Unwaith eto eleni ymwelodd cwmni Cat's Paw â'r ysgol i roi cyflwyniad ar drais rhywiol. Cafodd disgyblion Bl.9 i gyd gyfle i weld cynhyrchiad dramatig gan y cwmni. Yn dilyn y ddrama roedd disgwyl i'r disgyblion ddefnyddio teclyn i ateb amrywiol dasgau yn seiliedig ar yr hyn roedden nhw wedi ei weld. Roedd y cynhyrchiad yn codi nifer o gwestiynau ac fe gafwyd trafodaeth aeddfed am bwnc difrifol a'r modd y mae unigolion yn dadansoddi sefyllfaoedd. Yn sicr, llwyddodd y cynhyrchiad ysgytwol hwn i wneud i'r disgyblion feddwyl yn ddwys iawn ac fe gawson nhw fudd mawr o'r ymweliad.

Taith 'Of Mice and Men'

Ar fore Gwener, Tachwedd 20fed teithiodd disgyblion Bl.10 i Neuadd Dwyfor, Pwllheli i wyllo cyhyrchiad o 'Of Mice and Men' gan John Steinbeck. Mae'r nofel yn un o'r testunau gosod ar gyfer y disgyblion. Mwynhaodd pawb y cynhyrchiad a mawr ddiolch i athrawon Yr Adran Saesneg am drefnu'r daith.

Profiad Gwaith

Braf bob amser yw cael croesawu cyn-ddisgyblion yn ôl i'r ysgol. Yn ystod mis Tachwedd treuliodd Bessie Owen wythnos o brofiad gwaith yn yr ysgol. Elwodd y disgyblion o gael cymorth ychwanegol a gobeithio fod Bessie wedi mwynhau'r profiad hefyd.

Pontio

Braf hefyd yw cael disgyblion cynradd i'r ysgol. Ers rhai wythnosau bellach mae disgyblion cynradd lleol wedi bod yn ymweld â'r ysgol i dderbyn hyfforddiant chwaraeon gan ddisgyblion Bl.10. Mae'r hyfforddiant yn ran o waith y disgyblion ar gyfer eu cwrs TGAU Addysg Gorfforol. Gobeithio'n fawr y bydd y disgyblion i gyd yn elwa o'r profiad.

Twrnament Hoci

Cynhaliwyd Twrnament Hoci yn Ysgol Dyffryn Nantlle yn ddiweddar a bu ysgolion Y Moelwyn, Glan y Môr, Tywyn, Botwnnog, Y Berwyn ac Eifionydd yn cystadlu. Ar ôl colli dwy gêm, curo dwy gêm a dod yn gyfartal yn un gêm, llwyddodd Eifionydd i ddod yn drydydd yn y twrnament. Da iawn chi genod!

Pêl droed yr Urdd

Twrnament Pêl droed 5 bob ochr yr Urdd - Genethod Bl.9 a 10

Ysgol Eifionydd 4 v 0 Bodedern Ysgol Eifionydd 2 v 1 Berwyn
Ysgol Eifionydd 2 v 2 Caergybi Ysgol Eifionydd 4 v 2 Friars
Ysgol Eifionydd 6 v 0 Botwnnog (Semi)
Ysgol Eifionydd 2 v 0 Dyffryn Ogwen (Final)

Enillwyr – Ysgol Eifionydd - LLONGYFARCHIADAU

Twrnament Pêl droed 5 bob ochr yr Urdd - Hogiau Bl.9 a 10

Ysgol Eifionydd 1 v 0 Moelwyn Ysgol Eifionydd 1 v 0 Bodedern
Ysgol Eifionydd 1 v 0 Dyffryn Ogwen
Ysgol Eifionydd 0 v 2 Tryfan Ysgol Eifionydd 0 v 2 Ardudwy

Llongyfarchiadau am chwarae mor dda.

Pêl droed

Ynghanol y glaw llwyddodd tîm bechgyn Bl.7 i guro bechgyn Bl.7 Ysgol Ardudwy o 5 gôl i 1. Llongyfarchiadau mawr a daliwch ati hogia!

Gala Nofio Rhanbarth Eryri

Llongyfarchiadau i'r canlynol ar eu llwyddiant yng Ngala Nofion Rhanbarth Eryri yn ddiweddar.

Rhydd Bechgyn Bl.7 ac 8

Zil Morgan Lucaks

Broga Bechgyn Bl.7 ac 8

1af Iago Rhys

Cefn Bechgyn Bl.7 ac 8

1af Morgan Lucaks

Cymysg Unigol Bechgyn Bl.7 ac 8

1af Iago Rhys

Cyfnewid Rhydd Bechgyn Bl.7 ac 8

1af Ysgol Uwchradd Eifionydd

Cyfnewid Amrywiol Bechgyn Bl.7 ac 8

1af Ysgol Uwchradd Eifionydd